OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3831 (Cy.317)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Taliadau) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *29 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Rhagfyr 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 17(1), 45 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (**1**) sydd bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno ag unrhyw gyrff y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddianau y mae'r Rheoliadau hyn yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt; ac (i'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn yn gosod taliadau mewn perthynas â monitro gofynion Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995(**3**)), gan ei fod wedi'i ddynodi(**4**)) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**5**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau Canlynol:

(**1**) 1990 .16. Cafodd swyddogaethau “the Ministers” i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo I Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672.
(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1998/2095, a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/224; mae diwygiadau perthnasol wedi'u gwneud hefyd gan O.S. 2000/656.
(**4**) O.S. 1999/2788
(**5**) 1972 p.68